(Parhad o dudalen 17)

ymylu ar y rhyfeddol. Fy argraff i yw fod Cymru yn cynnal mwy o gyfnodolion mewn cyfartaledd i'w phoblogaeth nag unrhyw ran arall o'r byd gwaraiddiedig.

Am y cyfnodolion hyn, ysgrifennodd R. D. Rees:

> Fel yr aeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg rhagddi profodd golygyddion a chyhoeddwyr papurau newydd y cyfnod, fel eu cymheiriaid yn Iwerddon, yn offerynnau effeithiol yn natblygiad barn genedlaethol ac y mae iddynt le blaenllaw yn llên gwerin y traddodiad radical Cymreig.

Un nodwedd ar bapurau newydd Cymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd y modd awchus yr ymosodent ar eu gwrthwynebwyr — gwleidyddol, crefyddol neu fel arall — a di-ben-drawdod ymddangosiadol eu difenwi personol. Un papur a safai mewn dosbarth ar ei ben ei hun lle oedd difriaeth yn bod, oedd y papur Saesneg byrhoedlog *The Figaro in Wales* a gyhoeddwyd ym Mangor rhwng 1835 a 1836, gan Robert Jones, er na ddaeth enwau ei wir noddwyr erioed i'r amlwg. Dywed Dr Thomas Richards, llyfrgellydd Coleg y Brifysgol Bangor gynt, na fu erioed bapur mor ffyrnig o ddi-dderbyn-wyneb. Ei brif dargedau oedd pobl ddylanwadol Bangor a Chaernarfon — yn enwedig yr olaf, gan gynnwys criw o Doriaid lleol â'u bryd ar reoli'r Banc Cynilo a'r harbwr yn ogystal â'r Cyngor Tref yno. Ym Mangor anelai ei saethau gan mwyaf at awdurdodau'r Eglwys Gadeiriol, yn enwedig y rhai hynny a oedd wedi etifeddu segurswyddi trwy ddylanwad teulu'r diweddar Esgob Warren. Ond bob amser yr oedd yn fater o ddyrnu Toriaid. Galwyd y Whig James Hews Bransby, golygydd cyntaf y *Carnarvon Herald* yn 'arch-ragrithiwr', 'ysbïwr Toriaidd', 'pryf sidan Judas' a 'cabolwr esgyrn Penrhos', ac addaswyd i ddarllenwyr y *Figaro* adroddiad llawn am yrfa Bransby (yn cynnwys hanes ei symudiad brysiog o Dudley i ogledd Cymru fel canlyniad i ryw weithgareddau amheus yn ei ymwneud â banc cynilo yno). Ni welodd yr erthygl hon olau dydd, ond erbyn diwedd 1835 yr oedd y *Figaro* wedi erlid Bransby o olygyddiaeth yr *Herald* ac wedi llwyddo i wneud Toriaid Caernarfon yn lleiafrif ar y Cyngor Tref. Hwn oedd y papur newydd Cymreig cyntaf i gynnwys darlun.

Y mae'n wybyddus bod papurau newydd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel y *Figaro* yn cael eu gyrru i'r Swyddfa Gartref, hithau'n cael ei chynorthwyo gan wirfoddolwyr o blith ynadon Toriaidd a gwŷr eglwysig a fyddai'n aml yn tanlinellu'r hyn a ystyrient hwy yn ddeunydd peryglus yn eu copïau hwy, ac yn eu gyrru i'r Swyddfa Gartref. Ymhlith y targedau amlwg o blith papurau Cymreig y cyfnod oedd y rhai hynny a gefnogai achos y Siartwyr, fel *Udgorn Cymru* a'i gymheiriad yr *Advocate,* dau bapur y tynnwyd sylw'r awdurdodau atynt yn eu tro fel rhai a oedd yn peryglu diogelwch y deyrnas, ond na ddigwyddodd dim gwaeth iddynt na derbyn rhybudd. Morgan Williams a David John a redai'r papurau hyn, y blaenaf yn aelod o Gynghrair Genedlaethol y Siartwyr, a'r olaf yn un o gefnogwyr brwd y mudiad. Cyfieithwyd rhannau o'r *Udgorn* a'u gyrru i'r Swyddfa Gartref, fel hefyd yn achos *Y Gweithiwr* (Merthyr 1834), papur arall a gynhwysai ddeunydd Cymraeg y cyfieithwyd rhannau ohono a'i anfon i'r un lle. Papur John Frost, Etheridge, Partridge a radicaliaid eraill o Gasnewydd, oedd y *Newport and Monmouthshire Register* (1822) — papur a arweiniodd ymgyrch yn erbyn Corfforaeth Casnewydd. Felly hefyd yn achos y *Cardiff Recorder* a'r *Cardiff Reporter* — dau bapur a ymddangosodd yn 1822, ac a argreffid yn afreolaidd er mwyn osgoi cyfyngiadau'r Ddeddf Toll Stamp. Arllwysai'r cyntaf ddirmyg ar ben Corfforaeth Bute, grŵp a oedd yn awyddus i reoli etholiadau i swyddi bwrdeistrefol a phleidlais seneddol Caerdydd, tra argreffid yr ail i gefnogi Wyndham Lewis o Greenmeadow yn ei ymgais seneddol yn erbyn yr Arglwydd James Stuart, brawd iau yr Ardalydd Bute. Papur dwyieithog tebyg o ran natur eto oedd y *Cambrian Gazette: Y Freinlen Gymroaidd* (Aberystwyth 1836). Byrhoedlog ar y cyfan oedd y papurau hyn a rhai tebyg iddynt a gyhoeddwyd yn y cyfnod.

Rhwng 1833-39 cyhuddwyd y *Welshman*, papur Whigaidd a sefydlwyd i fod yn enau i Glwb Diwygiadol Caerfyrddin, o enllib bump o weithiau yn ystod y cyfnod gan ynadon Toriaidd Caerfyrddin. Yn y de-ddwyrain, fel y dywedwyd uchod, yr oedd yn rhyfel agored rhwng y papur Whigaidd *Monmouthshire Merlin* (1832) a'r *Merthyr Guardian* Toriaidd, a sefydlwyd yn fuan wedyn i wrthwynebu 'gwenwyn bradwrus' yr athrawiaeth Anghydffurfiol a ledaenid gan y *Merlin.* Er i'r *Guardian* gael peth llwyddiant yn yr ardaloedd o gwmpas, daeth yn amlwg yn fuan nad oedd yn cael unrhyw effaith ym Merthyr ei hun, 'y ffos honno o Radicaliaeth anaele'. Un a syllai ar y rhyfeloedd geiriau hyn gyda gofid oedd y Parchedig David Charles, Caerfyrddin, y pregethwr a'r emynydd, a chan nad yw'n hawdd taro ar farn gyfoes am enedigaeth a thwf y papur newydd yng Nghymru, y mae'n weth dyfynnu yma ei eiriau wrth annerch Sasiwn yn 1864:

> I remember the time when there was not a single Welsh newspaper published in Wales. But matters have much changed since. The newspapers are now more powerful than any other literary effort, but I look upon them, I am sorry to say, with regret; for instead of elevating and improving the taste of the public, they lend themselves to personalities and abuse by giving opportunities to the refuse of the people to blacken the character, and traduce the reputation of public men and public institutions. They encourage disputes and bad feelings, and allow their columns to be used by jealous and disappointed individuals, under assumed names, to pour their venom upon men in whose presence they would not dare speak. What is the reason that Welsh newspapers are so personal? Does it increase the circulation? If so, the object is low and contemptible. Is it not possible to sustain a newspaper, guided by honourable and worthy motives — one that we can admit into our houses without fear, and where questions would be discussed with intelligence, ability and in the spirit of the Gospel?

## YR UGEINFED GANRIF

Bu newidiadau mawr ym myd cyhoeddi papurau newydd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Daeth y papurau yn fwy poblogaidd o ran eu cynnwys wrth i fwy o ofod gael ei neilltuo ar gyfer newyddion lleol megis priodasau a marwolaethau, ond daethant hefyd yn gyfrwng lledaenu barn wleidyddol. Yng Nghymru y mae *Llais Llafur* (1899-1915) yn enghraifft dda o'r math yma o bapur. O dan ei berchennog, Ebeneser Rees, daeth yn bapur diddorol a darllenadwy, a oedd yn cynnwys erthyglau ar sosialaeth. Hwn hefyd oedd y cyfnod a welodd ddatblygiad radio, a olygai dderbyn newyddion tramor yn gynt. Erbyn y 1950au dangosai ffigyrau dosbarthu fod papurau newydd yn colli tir, a pharhaodd y duedd hon i'r 60au. Nid oes amheuaeth fod gan ddatblygiad radio a theledu ran yn y dirywiad hwn, yn arbennig felly sefydlu gwasanaeth Teledu Annibynnol a'i ddiddordeb ym myd hysbysebu, byd pwysig iawn o safbwynt y diwydiant papurau newydd.

Rhwng 1973 a Rhagfyr 1990 sefydlwyd 52 o bapurau bro Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, a dim ond ychydig a ddaeth i ben yn y cyfamser. Sefydlwyd y cyntaf — *Y Dinesydd* — yng Nghaerdydd yn 1973, fel papur cymuned ar gyfer siaradwyr Cymraeg y brifddinas. Dilynwyd yr esiampl hon yn fuan gan ardaloedd llai a mwy gwledig fel ardal Tal-y-bont yng ngogledd Ceredigion a mannau eraill, lle teimlai unigolion ei bod yn bryd ymdrechu yn erbyn difaterwch y papurau lleol a oedd eisoes yn bod parthed y defnydd o'r iaith Gymraeg. Hyd yn oed mewn ardaloedd lle siaredid Cymraeg gan fwy na 60% o'r darllenwyr, yr oedd cyfanswm y Gymraeg a ddarperid ar eu cyfer gan eu papurau lleol yn isel tu hwnt, a chyfarfodydd a gweithgaredd cwbl Gymraeg yn cael eu trafod yn Saesneg. Dim ond dau wythnosolyn Cymraeg cenedlaethol a oedd ar gael ar y pryd — *Baner ac Amserau Cymru* a'r *Cymro* — y blaenaf yn troi'n gyhoeddiad materion cyfoes ar ôl 1972 gan barhau hyd 1992 — tra yng Ngwynedd yr oedd pedwar wythnosolyn Cymraeg arall yn cydredeg — *Yr Herald Cymraeg* a *Herald Môn, Y Dydd* (Dolgellau), a'r *Cyfnod* (Bala). Yr oedd yn amlwg i'r rhai hynny a fyfyriai ar y sefyllfa bod llawer iawn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru nad oeddynt yn darllen fawr ddim 'newyddiadurol' drwy gyfrwng eu hiaith eu hunain.

Y mae adroddiad ar *'Y Papurau Bro — Y Presennol a'r Dyfodol',* a baratowyd gan Dr Emyr W. Williams yn 1990 yn dangos bod 5 papur bro wedi eu sefydlu mewn gwahanol rannau o Gymru rhwng 1973 a 1974; 12 rhwng 1975-6; a 14 rhwng 1977 (blwyddyn yr uchafbwynt) a 1978. Bu tyfiant cyson ers hynny nes bod 52 o bapurau yn bod ar hyn o bryd fel y dywedwyd uchod. Yn ôl yr Adroddiad, argreffir tua 70,000 o gopïau'n fisol, a chyda 4 person ar gyfartaledd yn gweld pob copi, y mae iddynt tua 280,000 o ddarllenwyr bob mis — ffigwr sy'n uwch na holl ddarllenwyr y *Western Mail* a'r *Daily Post* gyda'i gilydd.

*(I'w barhau yn y rhifyn nesaf)*

* * * *

(Yn rhifyn Awst 1989 o *Y Casglwr* cyhoeddwyd nodyn yn cyfeirio at y ffaith fod Beti Jones o'r Llyfrgell Genedlaethol newydd ddechrau ar y gwaith o wneud rhestr o'r holl bapurau newydd Cymreig a gyhoeddwyd rhwng 1804 — dyddiad y cyhoeddiad cyntaf — a heddiw. Yr oedd y gwaith i gael ei wneud fel rhan o gynllun o'r enw 'Newsplan' a oedd yn cael ei hyrwyddo gan y Llyfrgell Brydeinig. Mae ffrwyth llafur Beti bellach newydd ei gyhoeddi'n gyfrol swmpus yn dwyn y teitl: *Newsplan: Report of the Newsplan Project in Wales / Adroddiad ar Gynllun Newsplan yng Nghymru.* Rhan o Ragymadrodd Beti i'r Adroddiad yw'r sylwadau uchod. — Gol.)